Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
—
Children, Young People and Education Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
Senedd Cymru
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyddiad | Date 11 Hydref

Pwnc | Subject: Llythyr yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Gweinidog

Annwyl Jeremy

Diolch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 23 Medi. Fel y soniom, mae'r llythyr hwn yn cynnwys rhai cwestiynau ychwanegol nad oedd gennym amser i'w trafod yn y sesiwn. Roeddem hefyd am ofyn am rywfaint o eglurder pellach ynghylch y datblygiadau sydd wedi codi ers y sesiwn o ran rheoli COVID-19 mewn lleoliadau cyn-16.

## Rheoli COVID-19 mewn ysgolion

Rydym yn ymwybodol bod yr undebau addysg, ers sesiwn y Pwyllgor, wedi codi pryderon parhaus am effaith COVID-19 ar ysgolion. Rydym yn nodi eich llythyr at benaethiaid ar 28 Medi yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r rhain. Yn y llythyr hwn, rydych yn nodi y byddwch yn "parhau i fonitro'r sefyllfa" ac y gallwch "ailddyblu ymdrechion i wella trefniadau cyfathrebu yn y maes hwn." A allwch chi amlinellu sut rydych chi'n bwriadu gwneud y ddau beth hyn? Rydych hefyd yn nodi eich bod yn gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd i weld beth arall y gellir ei wneud i gefnogi timau Profi Olrhain Diogelu a lleoliad; a allwch chi ddarparu mwy o fanylion ar ba welliannau rydych chi'n gobeithio eu gweld?

Yn y cyfarfod, fe wnaethoch gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru, lle bo achos positif mewn cartref, y dylai plant fynychu'r ysgol oni bai eu bod yn symptomatig eu hunain, ond eu bod yn cael eu hannog i wneud prawf PCR rhag ofn. Yna, roedd eich datganiad ar 5 Hydref yn nodi y dylent hefyd wneud prawf llif unffordd bob dydd am saith diwrnod.

A allwch chi gadarnhau y dylai'r plentyn barhau i fynychu'r ysgol wrth aros am ganlyniad y prawf PCR hwnnw (gan dybio nad yw'r plentyn wedi cael prawf llif unffordd positif)? Hynny yw, a fyddech chi'n

ystyried bod y tarfu ar addysg y plentyn (hyd yn oed os yw hynny am ddiwrnod neu ddau yn unig) yn anghymesur â lefel y risg y gallai'r feirws gael ei drosglwyddo'n asymptomatig pe bai'r plentyn yn mynd i'r ysgol?

### Cwestiynau ychwanegol

Roedd rhai meysydd nad oedd gennym amser i'w trafod yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar.

Er bod trefniadau addysgu ac asesu yn benderfyniadau i brifysgolion unigol eu gwneud, rydym yn ymwybodol y bu teimladau cyhoeddus cryf ar y materion hyn. Er enghraifft, rydyn ni'n gwybod bod y Senedd wedi cael deiseb ynghylch trefniadau asesu ym Mhrifysgol Caerdydd. (Gwrthodwyd y ddeiseb oherwydd ei bod yn fater i'r Brifysgol.) A allwch chi nodi'r hyn rydych chi'n ei ddisgwyl gan ddarparwyr addysg uwch mewn perthynas â threfniadau addysgu ac asesu?

A allwch chi egluro beth yw ystyr "diogelu" y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer dysgwyr ifanc, ac a ydych chi'n disgwyl cynyddu swm y dyfarniad o'i gymharu â'r hawliau cyfredol.

Beth yw eich disgwyliadau gan Gymwysterau Cymru o ran diwygio cymwysterau galwedigaethol, ac a ydych chi'n fodlon â'r *status quo* cyfredol?

### Gwybodaeth y gwnaethoch gytuno i'w hanfon at y Pwyllgor

Fe gytunoch hefyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor am:

- faint o arian ychwanegol sydd wedi cael ei ddyrannu ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion;

- y llythyr gan Gymwysterau Cymru ynghylch diwygio cymwysterau i gyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru. Diolch ichi am ddarparu hwn yn barod;

- gwaith modelu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r effaith ar sefydliadau Cymru os rheolir mynediad myfyrwyr o Loegr i addysg uwch neu os caiff ffioedd yn Lloegr eu gostwng yn dilyn ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad y Panel Annibynnol ar yr adolygiad o addysg ôl-18.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.